OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2943 (Cy.260)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Cyfarwyddiadau ac Amodau Gweithgareddau Cyswllt: Cymorth Ariannol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Tachwedd 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *14 Tachwedd 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Rhagfyr 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 11F(3), (6) a (7) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Cyfarwyddiadau ac Amodau Gweithgareddau Cyswllt: Cymorth Ariannol) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 8 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "achosion teuluol" yr ystyr sydd i "family proceedings" yn y Rheoliadau Ariannol;

mae i "amod gweithgaredd cyswllt" yr ystyr sydd i "contact activity condition" yn adran 11C(2) o'r Ddeddf;

mae i "cyfarwyddyd gweithgaredd cyswllt" yr ystyr sydd i "contact activity direction" yn adran 11A(3) o'r Ddeddf;

ystyr "darparydd a gymeradwyir" ("*approved provider*") yw person a gymeradwyir am y tro—

(a) gan Weinidogion Cymru, pan fo'r gweithgaredd cyswllt yn cael ei ddarparu yng Nghymru, neu

(b) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd, pan fo'r gweithgaredd cyswllt yn cael ei ddarparu yn Lloegr,

yn ddarparydd gweithgareddau cyswllt;

(**1**) 1989 p.41. Mewnosodwyd adran 11F gan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 (p.20). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 11F (3), (6) a (7) a 104(4) i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chan baragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989;

mae i "gwasanaethau a ariennir" yr ystyr sydd i "funded services" yn y Rheoliadau Ariannol;

ystyr "gweithgaredd cyswllt" ("*contact activity*") yw gweithgaredd sy'n hybu cyswllt â phlentyn ac y mae cyfarwyddyd gweithgaredd cyswllt neu amod gweithgaredd cyswllt yn ei wneud yn ofynnol;

ystyr "Rheoliadau Ariannol" ("*Financial Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000(**2**);

mae i "tystysgrif" yr ystyr sydd i "certificate" yn y Rheoliadau Ariannol;

ystyr "unigolyn cymwys" ("*qualifying individual*") yw unigolyn sy'n dod o fewn adran 11F(4) o'r Ddeddf.

### Cymorth Ariannol

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau i gynorthwyo unigolyn cymwys i dalu tâl neu ffi mewn cysylltiad â gweithgaredd cyswllt.

(2) Ni chaniateir gwneud taliadau o dan baragraff (1) oni bai—

(a) bod adnoddau ariannol yr unigolyn cymwys fel a ganlyn, sef—

(i) yn sgil dyfarnu yn unol â'r Rheoliadau Ariannol bod yr unigolyn yn gymwys yn ariannol i gael gwasanaethau a ariennir mewn perthynas ag achosion teuluol, bod tystysgrif wedi ei dyroddi i'r unigolyn mewn perthynas â'r achos teuluol y gwnaed neu y gorfodwyd ganddo y cyfarwyddyd gweithgaredd cyswllt neu'r amod gweithgaredd cyswllt, a'i gwnâi'n ofynnol i'r unigolyn gymryd rhan yn y gweithgaredd cyswllt; neu

(ii) os nad yw'r unigolyn yn bodloni'r amod yn is-baragraff (a)(i), bod Gweinidogion Cymru'n fodlon bod yr unigolyn yn debygol o ddioddef caledi ariannol os yw'n ofynnol iddo dalu'r tâl neu'r ffi; a

(b) bod y gweithgaredd cyswllt yn cael ei ddarparu gan ddarparydd a gymeradwyir.

**4.** Caniateir gwneud taliadau o dan reoliad 3 yn uniongyrchol i'r darparydd a gymeradwyir.

*Gwenda Thomas*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

13 Tachwedd 2008

(**2**) O.S. 2000/516; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2997, 2001/3663, 2001/3929, 2002/709, 2003/650, 2005/589, 2005/1097, 2005/1793, 2006/2363, 2007/906, 2007/2442, 2088/658 a 2008/1879.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi talu cymorth ariannol mewn perthynas ag unigolyn y rhoddwyd gorchymyn neu gyfarwyddyd iddo i ymgymryd â gweithgaredd sy'n hybu cyswllt rhyngddo a'i blentyn os yw'r plentyn yn preswylio fel arfer yng Nghymru ("unigolyn cymwys") (rheoliad 3(1)).

Er mwyn bod yn gymwys i gael y cyfryw gymorth rhaid i unigolyn fod wedi ei ddyfarnu'n gymwys yn ariannol i gael gwasanaethau a ariennir mewn perthynas ag achosion teuluol a rhaid i'r unigolyn fod wedi cael tystysgrif a ddyroddwyd o dan y Cod Ariannu a gymeradwywyd o dan adran 9 o Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999(**3**) mewn perthynas â'r achos teuluol pan fu i'r llys wneud y cyfarwyddyd gweithgaredd cyswllt neu osod yr amod gweithgaredd cyswllt. Os nad dyna'r achos bydd angen i unigolyn brofi ei fod yn debygol o ddioddef caledi ariannol os bydd yn rhaid iddo dalu'r tâl neu'r ffi ar gyfer y gweithgaredd cyaswllt (rheoliad 3(2)).

Mae rheoliad 3(2) hefyd yn darparu mai dim ond os darperir y gweithgaredd cyswllt gan ddarparydd a gymeradwyir y caniateir rhoi cymorth. Mae darparydd a gymeradwyir wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd.

Mae rheoliad 4 yn caniatáu talu taliadau cymorth ariannol yn uniongyrchol i'r darparydd a gymeradwyir.

(**3**) 1999 p.22.